# MODIWL 1A RHAN B: LLEOLIAD Y DIWYDIANT CIG EIDION
# NODIADAU ATHRAWON

## CYFLWYNIAD

Pwrpas yr uned yma yw

- Adnabod y gwledydd sy’n cynhyrchu cig eidion
- Adnabod natur y diwydiant cig eidion mewn wahanol wledydd neu unedau masnach.

Ar ddiwedd yr Uned bydd myfyrwyr yn adnabod a disgrifio natur diwydiant cig eidion mewn wahanol wledydd.

## GEIRIAU ALLWEDDOL

Gwledydd
Tirddwys
Arddwys
Pesgi
Buwch a llo
Glaswelltir

## ADNODDAU

- Ffeithlen
- Adnoddau ar y we

## GWEITHGAREDDAU ADDYSGU I ROI TYSTIOLAETH BOD DYSGU WEDI DIGWYDD

Gem i adnabod natur y diwydiant cig eidion mewn wahanol wledydd. Cymysgu a rhoi dewis

| **Gwlad** | **Datganiad** |
|---|---|
| Unol Daleithiau America | Sustemau buwch a llo ar ffermydd glaswelltir eang a mawr o ran arwynebedd. |
| Unol Daleithiau America | Ffermydd bwydo (feedlot) lle mae lloi yn cael eu pesgi at anghenion y farchnad drwy fwydo dwysfwyd a chynnyrch gwastraff o’r diwydiant bwyd. |
| Brasil | Defnyddio glaswelltiroedd eang naturiol ond hefyd tiroedd wedi eu datgoedwigo. |
| Tsiena | Ffermydd bach teuluol yn defnyddio porthiant o ansawdd isel a chnydau i besgi bridiau cynhenid. |
| Brasil | Pryder amgylcheddol cyson ynglŷn a ddatgoedwigo at ddefnydd y diwydiant cig eidion. |
| Undeb Ewropeaidd | Sustemau tirddwys yn cynhyrchu cig o ansawdd uchel. |
| Awstralia | Ffermio cig eidion llai dwys yn y gogledd a chanol gan ddefnyddio bridiau Prydeinig yn ogystal a rhai bridiau o wledydd trofannol. |
| Ariannin | Cynhyrchu cig eidion ar laswelltiroedd eang y Pampas gan ddefnyddio bridiau Prydeinig, Cyfandirol Ewrop a Throfannol |